

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Adroddiad Blynyddol

uchelgaisgogledd.cymru

# Cynnwys


01. Rhagair

02. Goresgyn yr heriau a chreu momentwm

03. Pam buddsoddi yng Ngogledd Cymru?

04. Cerrig Milltir 2022-23

05. Uchafbwyntiau Chwarterol 2022-23

06. Cynllun Twf Gogledd Cymru

07. Sgiliau a Thrafnidiaeth

08. Llywodraethu

09. Y Flwyddyn nesaf

10. Ein Partneriaid


## Yr Uchelgais

Bod yn hyderus ac yn gydlynol, yn canolbwyntio ar wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y rhanbarth.

Gweld y rhanbarth yn datblygu mewn modd cynaliadwy, gyda chyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd, datblygu gyrfaoedd gwerth chweil, i fusnesau dyfu ac i gymunedau ffynnu.

Gwneud hyn gan hyrwyddo'r Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth, ac yn unol â nodau llesiant Cymru.

# Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'n cynnydd blynyddol o ran gweithredu'r Cynllun Twf trawsnewidiol – cytundeb 15 mlynedd gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU – i ddatblygu Gogledd Cymru yn gynaliadwy a gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Ein partneriaeth, Uchelgais Gogledd Cymru, sy'n cynnwys y chwe Chyngor, ein Prifysgolion, ein Colegau, a'r sector breifat, yw ein hased mwyaf ac mae'n allweddol i'n llwyddiant, wrth i ni arloesi i oresgyn rhwystrau a meithrin ffyniant rhanbarthol.

Eleni, ynghyd â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid rhanbarthol, rydym wedi datblygu ein Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, a gymeradwywyd gan bob un o bartneriaid Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'n amlinellu ein blaenoriaethau a'n nodau, gan bwysleisio pwysigrwydd cydweithio agos â rhanbarthau cyfagos hefyd.

Er bod economi'r Gogledd yn parhau i wynebu heriau sylweddol, mae diwedd cyllid Ewropeaidd, sydd ar fin digwydd, yn gosod cyd-destun newydd sy'n gofyn am newid yn ein hymagwedd tuag at ddatblygu. I fynd i'r afael â hyn, mae Llywodraeth y DU wedi lansio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan ddyrannu £126.5 miliwn ar draws y chwe chyngor.

Bydd yr arian hwn yn cael ei fuddsoddi mewn cefnogi cymunedau, busnesau lleol, a'n cyd-ddinasyddion i ffynnu yn y blynyddoedd i ddod.

Rydym yn ymfalchïo mewn cynrychioli ein rhanbarth ac yn gweld ein gwaith yn arwain Uchelgais Gogledd Cymru fel rhan annatod o ecosystem ehangach. Er bod hyrwyddo ffyniant economaidd trwy greu swyddi, denu buddsoddiad, a gwella gwerth cyffredinol ein heconomi yn allweddol, mae hyn yn cynrychioli un rhan o'n cenhadaeth yn unig. Mae economi ffyniannus yn dibynnu ar amgylchedd iach, a dyna pam mae ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy yn sail i'n dull gweithredu. Rydym hefyd yn credu'n gryf y dylai pawb elwa, a dyna pam rydym yn datblygu ein rhanbarth mewn ffordd gynhwysol wrth hyrwyddo ein hiaith, ein diwylliant, ein treftadaeth, ac yn cyd-fynd â nodau llesiant Cymru.

Mae ein cynnydd yn adlewyrchu cryfder Gogledd Cymru fel rhanbarth a gwydnwch ein partneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru, sy'n fraint cael ei harwain. Rydym yn credu'n gryf yn ein gallu nid yn unig i fanteisio ar gyfleoedd a llywio drwy unrhyw heriau, gan sicrhau lles a chynaliadwyedd ein cymdeithas yn y dyfodol.



**Y Cyng. Dyfrig Siencyn**
Cadeirydd Bwrdd Uchelgais
Economaidd Gogledd Cymru



**Y Cyng. Mark Pritchard**
Is-gadeirydd Bwrdd Uchelgais
Economaidd Gogledd Cymru

# Goresgyn yr heriau a chreu momentwm...

Rydym wedi gweld rhai pethau cadarnhaol iawn dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r Ganolfan Prosesu Signalau Digidol ym Mhrifysgol Bangor, bellach yn weithredol ers blwyddyn gyfan, y prosiect arloesol cyntaf i symud i'r cam cyflawni. Gyda hyn daeth y swyddi newydd cyntaf i'w creu a buddsoddiad ychwanegol i'r Gogledd oherwydd ein Cynllun Twf.

Gwelwyd tri Achos Busnes Amlinellol (OBCs) yn cael eu cymeradwyo - y prosiect Ychydig % Olaf, y prosiect Ynni Lleol Blaengar a phrosiect Canolfan Peirianneg Menter ac Opteg, a lansiodd ei brif broses dendro ym mis Mawrth hefyd.

Er gwaethaf gwneud cynnydd da, ni fyddai fy sylwadau yn gyflawn heb gydnabod yr heriau. Nod y prosiectau rydym yn eu cyflawni yw goresgyn anfanteision economaidd-gymdeithasol sylweddol a pharhaus yn y Gogledd. Am y rheswm hwn, nid yw'n hawdd eu cyflawni ac mae'n rhaid i ni dderbyn y bydd pethau'n esblygu ac yn newid, yn ogystal â'n cynlluniau er mwyn darparu ar gyfer hyn. I'r perwyl hwn, mae dau o'n prosiectau gwreiddiol wedi'u tynnu'n ôl ac mae un arall wedi'i ail-sgopio i fodloni amodau economaidd sy'n esblygu.

Mae'r rhain yn cynnwys penderfyniad Coleg Cambria a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd y dylai prosiect Fferm Sero Net Llysfasi symud ymlaen gyda ffynhonnell ariannu amgen sy'n cyd-fynd yn agos â nodau addysgol y coleg.

Yn ogystal, tynnwyd Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan yn ôl oherwydd newidiadau sylweddol i'r datblygiad a gynlluniwyd. Yn olaf, cymeradwywyd cais i leihau cwmpas prosiect Egni Prifysgol Bangor a bydd yn golygu ei fod yn canolbwyntio'n llwyr ar ddatblygiad newydd ym Mharc Gwyddoniaeth Menai (M-SParc).

Rhyddhaodd y newidiadau hyn £37m a'n galluogi i sefydlu Cronfa Cyflawni'r Portffolio gwerth £7m i gefnogi ein prosiectau mwyaf aeddfed i fynd i'r afael â chwyddiant costau neu faterion hyfywedd a symud i'r cam cyflawni. Hefyd, dyrannu £30m tuag at alwad agored am brosiectau newydd, a lansiwyd yn gynnar yn 2023, i adnabod prosiectau uchelgeisiol, arloesol a thrawsnewidiol newydd i ymuno â phortffolio'r Cynllun Twf. Mae'r uchelgais drwy'r prosiectau newydd hyn yn parhau i fod yn ddigyfnewid - byddant yn dod â swyddi gwerth uchel newydd a buddsoddiad yn ogystal â chyflawni ein dyhead ehangach i adeiladu economi bywiog, cynaliadwy a gwydn i'r Gogledd.

Rydw i'n hynod o falch o fy nhîm, y bartneriaeth a'r momentwm yr ydym yn ei adeiladu. Gyda'n gilydd, mae gennym lawer iawn o angerdd dros y Gogledd a gweld ein rhanbarth yn ffynnu yn y dyfodol. Rwy'n edrych ymlaen at fod yn rhan o'r siwrne dros y flwyddyn nesaf.



**Alwen Williams**
Cyfarwyddwr Portffolio

# PAM BUDDSODDI YNG NGOGLEDD CYMRU?

Mae Askar Sheibani, Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes, yn credu'n benodol bod y Gogledd mewn sefyllfa dda i fod yn 'arweinydd byd-eang' mewn ynni adnewyddadwy, gyda chyfleoedd i ddatblygu ynni adnewyddadwy llanw a morol yn ogystal â chynhyrchu hydrogen gwyrdd.

**"Mae gennym yr adnoddau naturiol i ddod yn arweinydd byd-eang mewn ynni adnewyddadwy, yr arbenigedd gweithgynhyrchu i gyflawni atebion arloesol, a'r bobl a'r partneriaethau i sbarduno newid i'r rhanbarth. Mae'r weledigaeth hon ar gyfer Gogledd Cymru yn gyraeddadwy ac o fewn ein cyrraedd."**



**Askar Sheibani**
**Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes**

Mae gan y Gogledd botensial diderfyn i gynnig cynnig unigryw a gwerth chweil i fuddsoddwyr. Mae'r rhanbarth yn cynnig costau cystadleuol, tirweddau hardd, pobl fedrus a llawer mwy. Mae ein pobl yn wydn, yn cael eu gyrru gan ganlyniadau ac yn deyrngar. Rydym yn ddigon mawr i gael effaith ond yn ddigon cysylltiedig i fod yn ddeinamig ac addasu'n gyflym i ddysgu sgiliau newydd ar gyfer y dyfodol.

Mae gennym falchder yn ein treftadaeth, ein diwylliant, ein hiaith a'n hamgylchedd ac rydym yn groesawgar i bobl a chyfleoedd. Mae hyn, ynghyd â'r buddsoddiad parhaus yn ein heconomi, yn gwneud y Gogledd yn lleoliad delfrydol i fuddsoddi ynddo.

Fel rhanbarth mae gennym gysylltiad da â Swydd Gaer, Lerpwl a Manceinion ac mae gennym gysylltiadau gwych ag Iwerddon trwy Borthladd Caergybi, yr ail borthladd fferi 'roll on roll off' prysuraf yn y DU a rhan o Borthladd Rhydd Môn a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a fydd yn un o ddau borthladd rhydd newydd i gael eu sefydlu yng Nghymru.

Yn y rhanbarth, mae gennym arbenigedd sylweddol a gweithlu medrus mewn technolegau ynni carbon isel gan gynnwys gwynt ar y môr ac ar y tir, niwclear a datblygu sector ynni llif llanw gan adeiladu ar barth datblygu llanw Morlais yng Nghaergybi.

Mae gennym gyfleusterau ymchwil ac addysg rhagorol yn y rhanbarth gan gynnwys ein dwy brifysgol, dau goleg addysg bellach a chyfleuster AMRC Cymru ym Mrychdyn.
Yn ogystal, mae ein rhwydwaith cryf o gwmnïau angor a chadwyni cyflenwi medrus yn cynnwys cwmnïau rhyngwladol enwog yn y sector gweithgynhyrchu gwerth uchel yn ogystal ag arweinwyr cenedlaethol yn y sectorau bwyd, twristiaeth a digidol.

# CERRIG MILLTIR 2022 - 23

Ebrill 2022- Mawrth 2023



## EBRILL

Dyfarnwyd £736k i Uchelgais Gogledd Cymru i uwchraddio cysylltedd mewn 28 o safleoedd sector cyhoeddus drwy'r Gronfa Band Eang Lleol.



## MAI

Roedd gennym stondin am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Ddinbych.



## MEHEFIN

Fe wnaethom ni noddi gwobr 'North Wales start-up' yng ngwobrau Wales Start-up a gynhaliwyd yng Nghaerdydd.



## GORFFENNAF

Prosiect y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol oedd prosiect cyntaf y Cynllun Twf i'w lansio, gan sicrhau bod y rhanbarth ar flaen y gad mewn Technoleg Ddigidol.



## AWST

Symudodd Uchelgais Gogledd Cymru o Ganolfan Fusnes Conwy i Adeiladau'r Llywodraeth yn Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno.



## MEDI

Cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu Strategaeth Ynni Rhanbarthol gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd.



## HYDREF

Cytunodd Uchelgais Gogledd Cymru i ymrwymo i Gytundeb Cyd-fenter gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni prosiect Parc Bryn Cegin.



## TACHWEDD

Fe wnaethom lansio ein methodoleg allyriadau carbon a bioamrywiaeth i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn y rhanbarth.



## RHAGFYR

Diwrnod Siwmper Nadolig - Cymerodd tîm Uchelgais Gogledd Cymru ran yn niwrnod swyddogion 'Siwmper Nadolig' drwy wisgo eu hoff siwmper dymhorol i'r gwaith a chyfrannu at Save the Children UK.



## IONAWR

Lansiwyd Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru yn Venue Cymru. Mae'r cynllun yn dwyn ynghyd anghenion cyflogaeth, recriwtio a sgiliau cyflogwyr lleol, ynghyd â'r sgiliau sydd eu hangen ar unigolion i gyflawni eu potensial.



## CHWEFROR

Lansiodd Uchelgais Gogledd Cymru alwad am brosiectau newydd ar gyfer Cyllid y Cynllun Twf gwerth £30m.



## MAWRTH

Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol y Prosiect Ynni Lleol Blaengar gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd.

## UCHAFBWYNTIAU CHWARTER UN



Yr Expo Sgiliau Digidol yn ei anterth yn M-Sparc, Gaerwen

## CYNNAL DIGWYDDIAD RHWYDWEITHIO SGILIAU DIGIDOL

Mewn cydweithrediad â M-Sparc, cynhaliwyd prynhawn o rwydweithio rhwng cyflogwyr a graddedigion. Roedd y digwyddiad yn mynd i'r afael â'r adborth a dderbyniwyd gan gyflogwyr yn y rhanbarth a nododd mai recriwtio oedd eu her fwyaf.

Yn dilyn y digwyddiad, cafodd graddedigion a phobl ifanc gynnig cyfweliadau gyda chyflogwyr lleol.

## WEDI YMUNO Â CODE FIRST GIRLS, I HYRWYDDO'R SECTOR DIGIDOL

Fe wnaethom ymuno â Code First Girls i ddarparu cyrsiau codio am ddim i fenywod a phobl anneuaidd yn y sector digidol.

Ar hyn o bryd, dim ond 19% o'r rhai sy'n astudio cyfrifiadureg ôl-16 sy'n fenywod - nod y cwrs yw cau'r bwlch sgiliau rhwng y rhywiau yn y sector hanfodol a chynyddol hwn.

## CYMERADWYWYD ACHOS BUSNES AMLINELLOL Y GANOLFAN OPTEG A PHEIRIANNEG MENTER

Fe gafodd Achos Busnes Amlinellol y prosiect gymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam nesaf. Bydd y prosiect yn archwilio'r defnydd o ddeunyddiau amgen, ysgafn, a fydd yn lleihau carbon o fewn y sector gweithgynhyrchu.



Argraff arlunydd o'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter



Cyfarwyddwr Portffolio, Alwen Williams hefo Mistar Urdd.

## BUOM YN EISTEDDFOD YR URDD

Roedd gennym stondin am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Ddinbych ym mis Mai 2022.

Roedd yn gyfle gwych i gwrdd â phobl ifanc, plant a rhieni i drafod y Cynllun Twf, tra'n rhoi'r rhanbarth ar y map ar gyfer ymwelwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt.

## FE WNAETHOM FYNYCHU GWOBRAU WALES START UP

Enillodd Cufflink, busnes o Ynys Môn, wobr North Wales Start-Up yng Ngwobrau Wales Start-Up 2022. Fel noddwr categori am yr ail flwyddyn, roeddem yn falch iawn o weld nifer o geisiadau o'n rhanbarth yn torri record.

## SICRHAU CYLLID GRANT I GYFLAWNI CYNLLUNIAU YNNI ARDALOEDD LLEOL

Cafodd cynllun gweithredu Strategaeth Ynni Rhanbarthol Gogledd Cymru ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd, gyda'r nod o ddatgarboneiddio ein systemau ynni a sicrhau bod y rhanbarth yn elwa o'r trawsnewid.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu, sicrhawyd cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i recriwtio tîm o dri i arwain ar y gwaith hwn ac i ddatblygu'r cynlluniau.

## CYMERADWYO ACHOS BUSNES AMLINELLOL Y PROSIECT YCHYDIG % OLAF

Ym mis Gorffennaf, cymeradwywyd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect ychydig % olaf. Roedd y gymeradwyaeth yn garreg filltir bwysig, gan ddod â'r prosiect gam yn nes at ddarparu safon cysylltedd cyson ledled y rhanbarth gyda band eang cyflym iawn (30 megabit yr eiliad).

## LANSIO EIN PROSIECT CYNLLUN TWF CYNTAF: CANOLFAN DSP, PRIFYSGOL BANGOR

Fe wnaeth Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AoS ac Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, David TC Davies AS fynychu lansiad ein prosiect Cynllun Twf cyntaf.

Nod y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP) ym Mhrifysgol Bangor yw datblygu datrysiadau i fod o fantais i fusnesau a thrigolion gyda gwell darpariaeth cyfathrebu ar gael, megis 5G a 6G. Bydd hyn yn darparu defnydd mwy cost effeithiol, mwy diogel a mwy effeithlon o'u rhaglenni i fusnesau a chymunedau'r Gogledd.







Lansiad y prosiect Canolfan Prosesu Signalau Digidol



Safle Morlais

## MORLAIS YN SICRHAU BUDDSODDIAD YCHWANEGOL

Sicrhaodd un o'r datblygwyr tyrbinau sy'n gysylltiedig â phrosiect y Cynllun Twf, Cydnerth (Morlais), bris gwarantedig am ei drydan, gan ei wneud y prosiect llanw cyntaf yng Nghymru i sicrhau contract fel rhan o ddyraniad Contract am Wahaniaeth Llywodraeth y DU.

O ganlyniad, bydd y datblygwr Magallanes Renovables wedi gwarantu refeniw o'r trydan y mae'n ei gynhyrchu ym Morlais.

# SWYDDOGION NEWYDD I ROI HWB I'R SECTOR YNNI ADNEWYDDADWY YNG NGOGLEDD CYMRU



Aelodau newydd y tîm: Richard Jones-Abbas, Rhianne Massin a Danial Ellis Evans.

**Fe wnaeth tri aelod newydd ymuno â'r tîm ym mis Ionawr i arwain ar gyflawni'r Cynllun Ynni Ardaloedd Lleol a'r Strategaeth Ynni Rhanbarthol, gan anelu at fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy hybu arloesedd yn y diwydiant yn y Gogledd.**

Bydd y tîm yn gweithio i ddatblygu'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol (LAEP) a fydd yn cefnogi Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru drwy ddarparu trosolwg o heriau a chyfleoedd carbon isel pob sir. Wrth wneud hynny, gall Awdurdodau Lleol ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddatgarboneiddio a chyflawni'r targedau sero-net cenedlaethol.

Ar ôl llwyddo i sicrhau £350,000 gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol, mae'r tîm eisoes wedi dechrau datblygu'r cynlluniau hyn gydag amcangyfrif o ddyddiad cwblhau Rhagfyr 2023

Mae Reolwr y Prosiect, Richard Jones-Abbas yn dweud: "Rwy'n falch o fod yn rhan o broses a fydd yn gweld Cymru'n dod y wlad gyntaf yn y byd i gael Strategaeth Genedlaethol yn seiliedig ar Gynlluniau Ynni Ardal Leol o bob un o'r 22 sir.

Byddwn yn anelu at gael ein Cynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol mewn lle erbyn diwedd y flwyddyn hon, yna byddwn yn dechrau gwneud o helpu i'w rhoi ar waith er mwyn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth."

Meddai Danial: "Mae'r diwydiant ynni adnewyddadwy yng Ngogledd Cymru yn datblygu ar gyflymder sylweddol - mae gennym y potensial i fod yn bwerdy o fewn y sector ledled y byd, felly mae'n amser diddorol i fod yn byw a gweithio yma, a dwi wrth fy modd mod i wedi penderfynu symud nôl".

Meddai Rhi: "Mae'r swydd hon wedi rhoi'r cyfle i mi ddechrau fy ngyrfa yn y sector ynni adnewyddadwy a chynaliadwyedd. Mae'n gyfle gwych ac mae'r gwaith y mae Uchelgais Gogledd Cymru yn ei wneud yn ysbrydoledig iawn. Alla i ddim aros i ddechrau arni".

# FE WNAETHOM LANSIO METHODOLEG I FYND I'R AFAEL Â NEWID HINSAWDD

Fe wnaethom lansio ein methodoleg allyriadau carbon a bioamrywiaeth i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn y rhanbarth, sy'n dilyn ein hymrwymiad y bydd holl brosiectau'r Cynllun Twf yn ceisio:

- gweithredu ar sero net;
- cyflawni cynnydd o 10% mewn bioamrywiaeth;
- lleihau allyriadau carbon gan o leiaf 40%.

Bydd y fethodoleg, a ddatblygwyd gydag Arup, yn arwain prosiectau'r Cynllun Twf wrth iddynt weithio tuag at y targedau uchelgeisiol hyn.

# CYLLID YCHWANEGOL AR GYFER PROSIECTAU'R CYNLLUN TWF

Derbyniodd pedwar prosiect presennol y Cynllun Twf ddyraniad o Gronfa Gyflawni'r Portffolio gwerth £7m. Datblygwyd y gronfa i gefnogi prosiectau aeddfed o fewn y portffolio, gan ddelio â chwyddiant costau neu faterion hyfywedd i symud

## UCHAFBWYNTIAU CHWARTER TRI

# DULL MENTER AR Y CYD AR GYFER PARC BRYN CEGIN

Fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais gadarnhau i Gytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu hyd at 3,000 m sg o unedau cyflogaeth a adeiledir ymlaen llaw ym Mharc Bryn Cegin, Bangor. Bydd y safle yn darparu cyfleoedd adleoli ac ehangu busnes

# FE WNAETHOM FYNYCHU GWOBRAU TWRISTIAETH GO NORTH WALES

Fe wnaethon noddi'r "Go Skills Award" newydd yng Ngwobrau Twristiaeth Go North Wales. Roedd y wobr hon yn cydnabod y cyfraniad y mae busnesau wedi'i wneud i wella sgiliau yn y sector twristiaeth a lletygarwch. Enillydd y wobr oedd Llysgennad Cymru.



Enillydd y wobr Gwobrau Go Skill: Llysgennad Cymru


Kirrie, Rheolwr Prosiect Cysylltedd Digidol gyda'r offer arolwg cysylltedd


Cath, Swyddog Prosiect Digidol gyda'r offer arolwg cysylltedd

# MYND I'R AFAEL Â HERIAU CYSYLLTEDD SYMUDOL

Cynhaliodd Uchelgais Gogledd Cymru arolwg cysylltedd symudol ar ansawdd cysylltedd 4G ar draws y rhanbarth i nodi pa ardaloedd yng Ngogledd Cymru sydd heb ddarpariaeth ar hyn o bryd.

Fe wnaeth y canlyniadau sefydlu pa feysydd sydd angen buddsoddiad ar gyfer gwell cysylltedd symudol ar draws prif rwydweithiau trafnidiaeth y rhanbarth.

# PORTFFOLIO CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

Gan fod portffolio prosiectau'r Cynllun Twf i'w gyflawni dros 15 mlynedd, roedd bob amser disgwyl y byddai'n newid.

Dros y flwyddyn, rydym wedi gweld dau brosiect yn cael eu tynnu'n ôl a chais am newid am un prosiect, a arweiniodd at gronfa heb ei dyrannu o £37m.

Penderfyniad Coleg Cambria a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd na fydd prosiect Fferm Sero Net Llysfasi bellach yn cael ei ariannu drwy'r Cynllun Twf, ond bydd yn symud ymlaen gyda chyllid o ffynonellau eraill fel cronfa Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, sy'n cyd-fynd yn agos â nodau addysgol y coleg.

Penderfynodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd dynnu Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan yn ôl o'r Cynllun Twf yn dilyn adolygiad Cyngor Sir Ddinbych o'r Cynllun Datblygu Lleol ac oherwydd newidiadau sylweddol ym maint disgwyliedig y prosiect a'r amserlenni ar gyfer cyflawni.

Cymeradwywyd cais am newid ar gyfer prosiect Egni i dynnu Cam 2 yn ôl o'r Cynllun Twf ond parhau â Cham 1 fel unig ffocws y prosiect.

Gwnaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd rai penderfyniadau allweddol ynghylch ailddyrannu cyllid o fewn y Cytundeb.

Yn gyntaf, sefydlu Cronfa Cyflawni'r Portffolio gwerth £7m ar gyfer 2023-24 i gefnogi prosiectau aeddfed o fewn y portffolio sy'n delio â chwyddiant costau neu faterion hyfywedd i symud i gyflawni.

Yn ail, cytunodd y Bwrdd ar y meini prawf a dyraniad o £30m o gyllid cyfalaf ar gyfer proses newid prosiectau. Lansiwyd proses Ariannu'r Cynllun Twf yn gynnar yn 2023, gan roi cyfle cyffrous i adnabod prosiectau uchelgeisiol, arloesol a thrawsnewidiol newydd i ymuno â'r Cynllun Twf ac i ddarparu swyddi a buddsoddiad yn y rhanbarth. Derbyniwyd 26 o geisiadau, ac mae'r broses asesu ar y gweill, gan ddewis prosiectau a all sbarduno twf economaidd, creu swyddi a denu buddsoddiad i'r rhanbarth yn ogystal â chyflawni ein dyhead ehangach i adeiladu economi fywiog, gynaliadwy a gwydn ar gyfer y Gogledd.







## UCHAFBWYNTIAU CHWARTER PEDWAR

## LANSIO TENDR I ADEILADU'R GANOLFAN OPTEG A PHEIRIANNEG MENTER

Mae'r prosiect wedi cyhoeddi cyfle tendro, gwerth £8.35m i ddylunio ac adeiladu'r ganolfan a fydd yn cefnogi busnesau gweithgynhyrchu yn y rhanbarth i ddatgarboneiddio.

Gall busnesau ddefnyddio'r cyfleusterau i brofi deunyddiau mewn amgylchedd rheoledig, gan ddarparu cynnyrch a systemau mwy effeithlon sydd angen llai o egni, a fydd yn lleihau costau ac allyriadau carbon. Yn ogystal, bydd y prosiect yn creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant lleol ac yn denu buddsoddiad.



Digwyddiad lansio Sgiliau a Chyflogaeth

## LANSIO CYLLID Y CYNLLUN TWF

Fe wnaethom lansio proses ymgeisio am hyd at £30m o gyllid cyfalaf tuag at brosiectau uchelgeisiol ac arloesol i ymuno â phortffolio'r Cynllun Twf.

Derbyniwyd dros 25 o geisiadau, ac maent yn mynd drwy'r broses asesu ar hyn o bryd. Bydd y cyllid yn cefnogi prosiectau sydd â'r potensial i yrru twf economaidd a chreu swyddi yn y rhanbarth.

## DIGWYDDIAD LANSIO CYNLLUN SGILIAU A CHYFLOGAETH GOGLEDD CYMRU

Mae'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth yn rhoi cipolwg o'r cyflenwad a'r galw am y system sgiliau yn y rhanbarth a beth yw blaenoriaethau cyflogwyr.

Mynychodd dros 160 o gyflogwyr y lansiad i glywed sgyrsiau ysbrydoledig a thrafodaethau panel arbenigol am y cynllun.




## CYMERADWYO ACHOS BUSNES AMLINELLOL YNNI LLEOL BLAENGAR

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol (OBC) Ynni Lleol Blaengar. Nod y prosiect yw cefnogi prosiectau ynni ledled y Gogledd i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio a bydd iddynt elfen o berchnogaeth leol.



Adeiladu ar safle Morlais

## CYNNYDD GYDA MORLAIS

Dechreuodd y gwaith adeiladu ar brosiect Morlais, mae cloddio ar y ffordd bellach wedi'i gwblhau ac mae dwythell a cheblu wedi hen ddechrau. Mae 97% o'r staff sydd wedi'u cyflog yn byw yn y Gogledd, gyda 68% yn siaradwyr Cymraeg. Bydd buddsoddiad y Cynllun Twf yn cael gwared ar rwystrau i ehangu prosiect Morlais yn y dyfodol.



# FLWYDDYN YMLAEN

## Canolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP)

Ddechrau 2023, fe wnaeth prosiect DSP Prifysgol Bangor ddechrau ei ail flwyddyn o gyflawni. Ers ei lansio, mae'r prosiect wedi symud ymlaen i gyflawni cydnabyddiad academaidd a phroffesiynol mewn cyhoeddiadau megis yr Institute of Engineering Technology a mwy. Yn ei blwyddyn gyntaf, cyflawnodd y Ganolfan DSP yr isod:

**CREU CHWECH , SWYDD CYNALIADWY GWERTH UCHEL**

**CYNHYRCHU GVA YCHWANEGOL O £614,095**


**SICRHAU £4.6 MILIWN MEWN CYLLID YCHWANEGOL**

Meddai'r Athro Paul Spencer, Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, "Mae'r buddsoddiad gan Gynllun Twf Gogledd Cymru wedi cynorthwyo gallu'r Ganolfan DSP i ymgysylltu â phartneriaid masnachol rhanbarthol a rhyngwladol ac mae'r cydweithio yma wedi adnabod cyfleoedd newydd i'r rhanbarth."

Dywedodd yr Athro Jianming Tang, Pennaeth y Ganolfan DSP, "Bydd yr offer a ariannwyd gan y Cynllun Twf yn galluogi i'r Ganolfan ehangu ei hymchwil arloesol a pharhau i ddarparu technolegau newydd, sydd ar flaen y gad, i roi hwb i'r economi rhanbarthol."









# CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

wedi ein hariannu gan :

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru



# TROSOLWG O'R CYNLLUN TWF

- Adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng Ngogledd Cymru.
- Adeiladu ar ein cryfderau, hybu cynhyrchiant wrth fynd i'r afael â heriau tymor hir a rhwystrau economaidd i sicrhau twf cynhwysol.
- Hyrwyddo twf mewn modd graddadwy, cynhwysol a chynaliadwy, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**BUDDSODDIAD**

Targed Buddsoddiad Cynllun Twf
**£240m**

Cyfanswm y Buddsoddiad Targed: dros
**£1bn**

**AMCANION**

Creu hyd at
**4,200**
o swyddi

Cynhyrchu hyd at
**£2.4bn**
oo GVA ychwanegol net

## EIN RHAGLENNI

- Bwyd-amaeth a Thwristiaeth
- Cysylltedd Digidol
- Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel
- Tir ac Eiddo
- Ynni Carbon Isel

# Bwyd-amaeth a Thwristiaeth

## Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

**Nod y rhaglen hon yw hyrwyddo a chefnogi cyflogaeth a hyfforddiant yn y sectorau Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth, gan adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd o'r radd flaenaf sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y rhanbarth.**

### Hwb Economi Wledig Glynllifon

**Prif Ariannwr: Grŵp Llandrillo Menai**

Hwb economi gwledig arbennig, o safon fyd-eang, sy'n cynnig cyfleusterau a gwasanaethau trosglwyddo gwybodaeth gradd bwyd i wella'r sector bwyd a diod.

### Rhwydwaith Talent Twristiaeth

**Prif Ariannwr: Grŵp Llandrillo Menai**

Darparu sgiliau twristiaeth a lletygarwch ar gyfer y dyfodol a chynyddu'r manteision masnachol o un o'r sectorau sydd wedi'i sefydlu orau ac sy'n tyfu gyflymaf yn y rhanbarth.

| | Cam 1 Pennu cyd-destun y Prosiect | Cam 2 Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Cam 3 Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 4 Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 5 Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Cam 6 Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn | Cam 7 Gweithredu a Monitro Prosiect | Cam 8 Gwerthuso Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hwb Economi Wledig Glynllifon** | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | | | |
| **Rhwydwaith Talent Twristiaeth** | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | | | | | |



# Cysylltedd Digidol

## Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

**Mynd i'r afael â heriau cysylltedd o fewn y rhanbarth, gam wella'r gallu i ddatblygu technolegau newydd ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau y gall busnesau a thrigolion elwa o gysyllted cyflym, ansawdd uchel.**

### Campysau Cysylltiedig

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Sefydlu cwmpas rhwydwaith mewn safleoedd masnachol allweddol yn y rhanbarth, gan gefnogi busnesau gydag opsiynau i gysylltedd hanfodol..

### Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Gwella dibynadwyedd ac ansawdd gwasanaethau symudol ar y prif ffyrdd a rheilffyrdd yn y Gogledd, gan alluogi gwasanaethau ffibr llawn i safleoedd masnachol allweddol ledled y rhanbarth.

### Canolfan Prosesu Signal Digidol

**Prif Ariannwr: Prifysgol Bangor**

Ymchwil a datblygu technolegau newydd sy'n gwella sut mae data yn cael ei brosesu'n effeithlon ac yn ddibynadwy rhwng dyfeisiau a phobl.

### Yr Ychydig % Olaf

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Darparu band eang 'superfast' (30Mbps) o leiaf i gymunedau sydd â chysylltedd gwael ledled y Gogledd.

| | Cam 1 Pennu cyd-destun y Prosiect | Cam 2 Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Cam 3 Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 4 Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 5 Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Cam 6 Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn | Cam 7 Gweithredu a Monitro Prosiect | Cam 8 Gwerthuso Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Campysau Cysylltiedig | Wedi'i gwbwlhau | Ar y gweill | | | | | | |
| Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | | | | | | |
| Canolfan Prosesu Signalau Digidol | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | |
| Yr Ychydig % Olaf | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | | | |

# Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch

## Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

**Hyrwyddo arloesedd a masnacholi technoleg yn y diwydiant gweithgynhyrchu, gan adeiladu ar gryfder presennol y sector o fewn ein rhanbarth.**

### Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol

**Prif Ariannwr: Prifysgol Bangor**


Archwilio'r defnydd o brosesau biolegol fel dewisiadau carbon isel yn lle cynhyrchion a phrosesau gweithgynhyrchu diwydiannol.

### Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter

**Prif Ariannwr: Prifysgol Wrecsam**

Darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i archwilio opteg, ffotoneg a deunyddiau cyfansawdd fel dewis amgen o ddeunydd ysgafn, a fydd yn lleihau carbon o fewn y sector gweithgynhyrchu.

| | Cam 1<br>Pennu cyd-destun y Prosiect | Cam 2<br>Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Cam 3<br>Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 4<br>Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 5<br>Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Cam 6<br>Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn | Cam 7<br>Gweithredu a Monitro Prosiect | Cam 8<br>Gwerthuso Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | | | | | |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | | | |



# Tir ac Eiddo

## Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

**Mynd i'r afael â heriau tir ac eiddo yn y rhanbarth, i ddatgloi cyfleoedd ac adeiladu ar ein cryfderau. Datblygu safleoedd i ddarparu eiddo preswyl a chyflogaeth. Bydd hefyd yn sicrhau'r capasiti mwyaf posibl mewn cysylltiadau trafnidiaeth allweddol.**

### Cyn Ysbyty Gogledd Cymru

**Prif Ariannwr: Jones Bros Civil Engineering UK**

Datblygu a glanhau'r safle fel ei fod yn addas ar gyfer datblygiadau preswyl ac eiddo cyflogaeth.

### Porth Caergybi

**Prif Ariannwr: Stenaline**

Gwella capasiti a chyfleusterau'r porthladd, creu angorfa i brosiectau ynni a chludo nwyddau cyffredinol.

### Parc Bryn Cegin

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Datblygu tir ar gyfer adeiladau cyflogaeth newydd , addas ar gyfer cyfleoedd ail-leoli.

### Warren Hall, Brychdyn

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru**

Darparu gwasanaethau hanfodol i'r safle er mwyn i fusnesau allu ail-leoli, ehangu neu i ddenu busnesau newydd.

### Porth y Gorllewin, Wrecsam

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Darparu gwasanaethau hanfodol i'r safle er mwyn i fusnesau allu ail-leoli, ehangu neu i ddenu busnesau newydd.

| | Cam 1 Pennu cyd-destun y Prosiect | Cam 2 Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Cam 3 Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 4 Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 5 Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Cam 6 Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn | Cam 7 Gweithredu a Monitro Prosiect | Cam 8 Gwerthuso Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyn Ysbyty Gogledd Cymru | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | | | | | |
| Porth Caergybi | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | | | | | |
| Parc Bryn Cegin | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | | | | | |
| Warren Hall, Brychdyn | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | | | | | | |
| Porth y Gorllewin, Wrecsam | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | | | | | | |

# Ynni Carbon Isel

## Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

**Datgloi buddion datblygu prosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth, gan sefydlu Gogledd Cymru fel un o'r lleoliadau arweiniol ar gyfer y sector ynni carbon isel.**

### Cydnerth (Morlais)

**Prif Noddwr: Menter Môn**

Datblygu cysylltiadau grid ychwanegol ar gyfer cyflenwyr ynni llanw i ddefnyddio mwy o dyrbinau o fewn y parth.

### Egni

**Prif Ariannwr: Prifysgol Bangor**

Datblygu Canolfan Ragoriaeth, gwella ymchwil, dylunio ac arloesedd mewn ynni carbon isel.

### Hwb Hydrogen

**Prif Ariannwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Rhoi hwb i'r economi hydrogen yn y rhanbarth drwy gefnogi a datblygu hwb hydrogen.

### Ynni Lleol Blaengar

**Prif Noddwr: Uchelgais Gogledd Cymru**

Helpu prosiectau i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol.

### Trawsfynydd

**Prif Ariannwr: Cwmni Egino (Llywodraeth Cymru)**

Defnyddio Adweithyddion Modiwlaidd Bach neu Uwch ar safle Trawsfynydd i gynhyrchu ynni carbon isel.

| | Cam 1<br>Pennu cyd-destun y Prosiect | Cam 2<br>Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Cam 3<br>Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 4<br>Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 5<br>Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Cam 6<br>Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn | Cam 7<br>Gweithredu a Monitro Prosiect | Cam 8<br>Gwerthuso Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cydnerth | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | | | | | |
| Trawsfynydd | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | | | | | | |
| Egni | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | | | | | |
| Ynni Lleol Blaengar | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | | | |
| Hwb Hydrogen | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau | Ar y gweill | | | | | |



# SGILIAU A TRAFNIDIAETH

# TROSOLWG GAN BARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU (RSP):

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ffocws wedi bod ar ymgynghori ar ein Cynllun Sgiliau a Chyflogadwyedd newydd a'i gyhoeddi ar gyfer 2023-25. Buom yn siarad â dros 400 o gyflogwyr rhanbarthol i ddeall eu hanghenion a'u heriau sgiliau. Cynhaliom grwpiau ffocws a gweithdai gyda'n rhanddeiliaid i osod y weledigaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth dros y tair blynedd nesaf. Bydd y cynllun newydd yn canolbwyntio ar:

- Helpu cyflogwyr i ddeall potensial gweithwyr yn y rhanbarth heddiw ac yn y dyfodol;
- Helpu unigolion i ddeall pa gyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael iddynt yn y rhanbarth;
- Hysbysu a gwella'r broses o wneud penderfyniadau ar lefel polisi;
- Hwyluso cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng rhanddeiliaid allweddol.

# UCHAFBWYNTIAU DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF:

### Sgiliau Sero Net

Crëwyd grŵp llywio, sy'n cynnwys datblygwyr ynni carbon isel, RWE, BP, Morlais, Magnox a Cwmni Egino, i ddeall gofynion sgiliau arbenigol, uwchsgilio ac ailsgilio'r gweithlu, yn ogystal ag adnabod y sgiliau trosglwyddadwy a chyffredin sy'n codi ar draws prosiectau a thechnolegau. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda darparwyr hyfforddiant i dynnu sylw at ehangder y cyfleusterau addysgol a hyfforddiant sydd ar gael yn y rhanbarth i gefnogi cyflogwyr newydd a phresennol ar draws y diwydiant ynni carbon isel, gan gynnwys eu cadwyn gyflenwi.

### Gofynion Sgiliau Prosiectau'r Cynllun Twf

Ochr yn ochr ag Uchelgais Gogledd Cymru, mae'r Bartneriaeth Sgiliau wedi bod yn gweithio i ddatblygu ffordd safonol o nodi bylchau sgiliau a heriau sy'n gysylltiedig â phrosiectau'r Cynllun Twf i sicrhau y gallwn ni, fel rhanbarth, fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo, a bydd cydlynu sgiliau yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni prosiectau'r Cynllun Twf.

### Digwyddiad Paru Sgiliau Digidol

Mewn cydweithrediad â M-SParc, cynhaliodd yr RSP ddigwyddiad Sgiliau Digidol llwyddiannus ym mis Mehefin, gyda dros 120 o bobl yn bresennol. Y maes ffocws oedd:

- Cael gwybodaeth gan gyflogwyr am eu sgiliau, eu hanghenion a'u datrysiadau;
- Paru graddedigion/ pobl ifanc/ pobl economaidd anweithgar gyda chyflogwyr yn y rhanbarth sy'n bwriadu recriwtio;
- Cynghori cyflogwyr sy'n ei chael hi'n anodd denu a chadw pobl i'r diwydiant trwy sgwrs ysbrydoledig gan Google ar eu strategaeth piblinell talent a sgiliau.

## Ymchwil ac Adroddiad Gwarant Pobl Ifanc

Buom yn ymgynghori â rhaglenni, prosiectau a rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth er mwyn deall yn well y tirlun presennol o gynnig/cymorth sydd ar gael o ran y cymorth/darpariaeth addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a llesiant presennol sydd ar gael i bobl ifanc yn lleol ac yn rhanbarthol fel rhan o'r ymchwil bwrdd gwaith ar gyfer y Gwarant Pobl Ifanc. Cyflwynwyd adroddiad i Lywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y bylchau rhanbarthol mewn darpariaeth/cymorth ac i adnabod y blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer y dyfodol.

## Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)

Rydym wedi adolygu'r NOS gan ganolbwyntio ar dueddiadau/newidiadau galwedigaethol, gan adnabod y galwedigaethau sy'n dod i'r amlwg eu bod yn dirywio ac mewn blaenoriaeth ar draws ein sectorau blaenoriaeth. Mae'r adolygiad hwn yn helpu i sicrhau bod safonau'n parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol mewn amgylchedd gwaith sy'n newid yn gyflym.

## Crynodeb adroddiad LMI Covid-19

Cwblhaodd a chyflwynodd y Bartneriaeth Sgiliau yr iteriad olaf o adroddiad LMI Covid-19 i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill. Mae'r adroddiad cryno terfynol hwn yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd dros gyfnod y pandemig. Cyflwynodd y bartneriaeth hefyd dair her sgiliau allweddol i'r rhanbarth i'r Gweinidog.

## Llwybrau Gyrfa a gweithio gydag ysgolion a phartneriaid addysgol

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweithio'n agos gyda chonsortiwm addysg GwE yn y Gogledd i alinio'r cwricwlwm newydd ag anghenion cyflogwyr. Mae trafodaethau hefyd wedi digwydd gyda Phenaethiaid i rannu gwybodaeth am y farchnad lafur ac arddangos cyfleoedd ac ehangder y gyrfaoedd sydd ar gael i bobl ifanc. Mae canlyniadau'r trafodaethau a'r cydweithio wedi arwain at gydweithio rhwng y Bartneriaeth Sgiliau , Gyrfa Cymru, GwE ac Ysgolion i gael cynllun cyfathrebu ar y cyd ar sut i dargedu pobl ifanc mewn ysgolion o Flwyddyn 7 ymlaen gyda gwybodaeth am lwybrau gyrfa, gan gynnwys hyrwyddo prentisiaethau.

## Adolygiad Cymhwyster Cyfrif Dysgu Personol (PLA)

Mae'r Bartneriaeth Sgiliau wedi bod yn gweithio gyda cholegau AB, Llywodraeth Cymru a chyflogwyr i gynnal adolygiad cymhwyster o'r cynnig PLA yn y rhanbarth. Mae sicrhau bod cymwysterau a gynigir trwy'r PLA yn bodloni gofynion y diwydiant yn hanfodol, ac mae'r Bartneriaeth wedi cyfrannu gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur a barn y diwydiant ar y cynnig presennol.

## Adolygiadau Cymwysterau Cymru

Rydym wedi cefnogi ystod eang o adolygiadau sector a gynhaliwyd gan Cymwysterau Cymru - gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, Peirianneg, Gweithgynhyrchu Digidol ac Uwch, yn ogystal â Theithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo. Mae'r gwaith hwnnw wedi ein helpu i ddod yn eiriolwyr gwybodus ar gyfer datblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol newydd ac wedi'u hadnewyddu, a all helpu wrth adeiladu ar gyfer cymwysterau galwedigaethol sy'n canolbwyntio ar sector. Y ffocws nawr yw gweithio gyda Chymwysterau Cymru drwy eu hadolygiadau sector a helpu gyda'r prosesau gweithredu - gan ddylanwadu ar Colegau Cymru, NTfW a darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar sgiliau addas i gyflawni yn erbyn gofynion newydd, yn ogystal ag ymgysylltu â 'Chymwys ar gyfer y Dyfodol' i ail-lunio'r dirwedd gymwysterau a defnyddio grwpiau clwstwr sector blaenoriaeth drwy'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

# CYNLLUN SGILIAU A CHYFLOGAETH RHANBARTHOL

Mae Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023-2025 yn dwyn at ei gilydd drosolwg o gyflogaeth, recriwtio ac anghenion sgiliau busnesau a chyflogwyr lleol, ynghyd â'r sgiliau sydd eu hangen ar unigolion i gyflawni eu potensial. I ddarparu'r sgiliau hyn i fusnesau lleol a thrigolion lleol, mae angen cael gwared â'r annibendod, cydgordio'n effeithiol ar draws y rhanbarth ac mae angen i gyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a chyllidwyr weithio gyda'i gilydd.

Datblygwyd y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth tair blynedd gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, ar y cyd â busnesau a chyflogwyr ar draws y rhanbarth, ac yn seiliedig ar adolygiad cynhwysfawr o ffynonellau gwybodaeth a data perthnasol, wedi'i osod o fewn y cyd-destun polisi a strategaeth ehangach, yn ogystal â chyd-destun economaidd a marchnad lafur presennol ehangach a'r dirwedd sgiliau.

Mae'r cynllun hwn yn ceisio tynnu sylw at drywydd anghenion sgiliau cyflogwyr yn ein sectorau ac ymysg unigolion. Mae'n egluro'n fanwl rhai o'r heriau sy'n wynebu cyflogwyr, trigolion, sectorau a darparwyr hyfforddiant. Mae'n tynnu sylw at gyfleoedd i adeiladu ar y gwaith sy'n mynd rhagddo wrth gydlynu cyflogaeth a sgiliau. I adeiladu ar y cyfleoedd hyn a goresgyn yr heriau, bydd angen cydweithrediad.

Y weledigaeth yw fod Gogledd Cymru yn rhanbarth lle mae'r bobl, ac yn benodol eu sgiliau a'u galluoedd, yn allweddol i ddatblygiad economaidd a lles. Mae cyflogwyr yn y rhanbarth yn ffynnu, yn datblygu ac yn tyfu oherwydd sgiliau'r boblogaeth leol. Mae busnesau eisiau symud i'r rhanbarth oherwydd sgiliau'r boblogaeth leol. Ar yr un pryd, gall pobl gyflawni eu huchelgais a gwneud y mwyaf o'u potensial yn y Gogledd.



# TRAFNIDIAETH

- Sefydlwyd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru yng Ngwanwyn 2022 i asesu'r problemau, y cyfleoedd, yr heriau a'r amcanion ar gyfer gwireddu system drafnidiaeth integredig ac amlfoddol gynaliadwy yng Ngogledd Cymru. Cyhoeddwyd Datganiad Cynnydd ym mis Ionawr 2023 ac mae'n crynhoi'r gwaith hyd yma ac yn archwilio'r atebion a'r cyfleoedd posibl. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd trafodaethau'n parhau gyda rhanddeiliaid i fireinio'r argymhellion arfaethedig, gyda'r adroddiad terfynol i fod i gael ei gyhoeddi yn yr Haf.
- Cyhoeddodd y Panel Adolygu Ffyrdd, panel annibynnol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i adolygu cynlluniau ffyrdd sy'n cael eu datblygu, eu hargymhellion yn nogfen "Dyfodol Buddsoddiad Ffyrdd yng Nghymru" ym mis Chwefror 2023. Bydd yr adroddiad terfynol yn nodi diwedd gwaith y Panel Adolygu Ffyrdd a bydd yn cynorthwyo'r Gweinidogion i benderfynu pa gynlluniau i fwrw ymlaen â nhw, eu haddasu neu roi'r gorau i'w cefnogi.
- Cynhaliodd Growth Track 360 Dderbyniad Seneddol ym Mhalas San Steffan ym mis Chwefror, gan roi cyfle i holl ASau Gogledd Cymru a rhanddeiliaid perthnasol, glywed am Brosbectws GT360 2.0, a fydd yn cael ei lansio yn ddiweddarach yn 2023 ac sy'n disodli'r prosbectws gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2016. Ers y prosbectws gwreiddiol, mae newid hinsawdd wedi dod yn fwy o bwys, ac mae Trafnidiaeth Cymru a Network Rail wedi datblygu astudiaethau sy'n galluogi cynlluniau mwy penodol, graddol a buddsoddadwy yn y tymor byr i'r tymor canolig a fydd yn gofyn am gyllid cyfalaf.
- Cafodd ymateb rhanbarthol ei gyflwyno i ymgynghoriad papur gwyn Llywodraeth Cymru "Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn: Cynllunio Bysiau fel Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru". Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gam allweddol tuag at greu model newydd ar gyfer rhedeg bysiau yng Nghymru ac yn gyfle i edrych ar yr hyn sydd ei angen ar Gymru o'i gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus a bydd yn rhan annatod o ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus yn llwyddiannus ar gyfer y dyfodol. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Rhagfyr 2022.
- Ym mis Mai 2021 cyhoeddodd y Llywodraeth ei chynlluniau ar gyfer y diwygiad mwyaf i'r rheilffordd mewn tri degawd. Lansiodd y Great British Railway Transition Team (GBRTT) ei "alwad am dystiolaeth" rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Chwefror 2022 - lle gwnaethom gyflwyno ymateb rhanbarthol i helpu i lywio datblygiad strategaeth hirdymor ar gyfer rheilffyrdd, gan osod y cyd-destun strategol a blaenoriaethau allweddol ar gyfer y sector. Cyhoeddwyd "Whole Industry Strategic Plan" ym mis Mehefin 2022.
- Mae gwaith yn parhau i gefnogi'r gwaith o weithredu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn raddol, yn enwedig o ran Swyddogaethau Trafnidiaeth Strategol.



# LLYWODRAETHU

# TROSOLWG LLYWODRAETHU

Sefydlwyd y Bwrdd Uchelgais gan bartneriaid awdurdodau lleol fel cyd-bwyllgor yn 2019 a hwn yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru, ynghyd ag arwain ar gydweithio economaidd rhanbarthol.

Wedi sicrhau'r Cynllun Twf ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y partneriaid gytuno i 'Gytundeb Llywodraethu 2'. Mae'r cytundeb, sy'n ddogfen sydd wedi'i rhwymo mewn cyfraith, yn diffinio rôl a swyddogaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'i ddefnydd o bwerau dirprwyedig. Yn ogystal, mae'n amlinellu'r strwythurau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd democrataidd.

Mae trefniadau llywodraethu'r Cynllun Twf yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud mewn modd agored a thryloyw er budd y rhanbarth cyfan. Tra bod y Bwrdd Uchelgais yn gweithredu fel y corff gwneud penderfyniadau ar gyfer y Cynllun Twf, mae cysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol cryf â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel arianwyr y Cynllun Twf.

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi mabwysiadu model cyflawni sy'n seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau. Mae'r dull hwn yn ffordd integredig o fodloni uchelgeisiau'r sefydliad, gan annog gwell penderfyniadau a chynyddu'r tebygolrwydd o gael deilliannau llwyddiannus.


### Adrodd

Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cynhyrchu adroddiadau cynnydd chwarterol ac adroddiad blynyddol ar y Cynllun Twf a gaiff eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, y Bwrdd Uchelgais a'i bartneriaid. Mae'r adroddiadau hyn ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan.

### Trefniadau Craffu

Darperir swyddogaeth craffu Cynllun Twf Gogledd Cymru gan y chwe awdurdod lleol drwy eu trefniadau Pwyllgorau Craffu presennol. Bydd y Pwyllgorau Craffu yn ystyried yr adroddiadau chwarterol a blynyddol a gaiff eu cynhyrchu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio.

## STRWYTHUR CYFLAWNI PROSIECTAU'R CYNLLUN TWF



# Y FLWYDDYN NESAF

**Gan y Cyfarwyddwr Portffolio, Alwen Williams**

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i ganolbwyntio, ochr yn ochr â'n partneriaid, ar yrru ein prosiectau ymlaen i gyflawni'r swyddi newydd a'r buddsoddiad sydd eu hangen i gefnogi ffyniant Gogledd Cymru yn y dyfodol.

Ym mis Gorffennaf, bydd ein bwrdd yn dewis prosiectau newydd i ddod i Gynllun Twf Gogledd Cymru. Mae hon yn garreg filltir gyffrous a bydd yn sicrhau y bydd cyfalaf heb ei ddyrannu o ganlyniad i rai prosiectau nad ydynt yn symud ymlaen, yn cael ei ailddyrannu a'i fuddsoddi mewn prosiectau newydd.

O ran ein portffolio presennol, roeddem bob amser yn gwybod y byddai ein prosiectau'n cymryd amser i aeddfedu a chael eu cyflawni, mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei gyfleu gan dymor pymtheg mlynedd y Cynllun Twf, fodd bynnag, mae gennym gerrig milltir cyffrous i'w cyflawni y flwyddyn nesaf, gan gynnwys:

- Sicrhau ariannwr i weithio mewn partneriaeth i ddatblygu Hwb Hydrogen Gwyrdd ar gyfer Gogledd Cymru. Bydd hwn yn sefydliad neu gonsortiwm o sefydliadau a fydd yn dylunio ac yn cyflawni'r prosiect y bydd hyd at £11.2m o gyllid y Cynllun Twf yn cael ei fuddsoddi ynddo i helpu sefydliadau tanwydd ffosil i ddod yn gwsmeriaid hydrogen carbon isel.
- Lansio ein cronfa Ynni Lleol Blaengar. Diben y prosiect Ynni Lleol Blaengar yw creu ffyniant yng Ngogledd Cymru drwy gefnogi a galluogi datrysiadau ynni glân a datgarboneiddio. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy dargedu buddsoddiadau mewn datrysiadau ynni glân a fydd yn creu cyfleoedd swyddi lleol newydd, yn denu buddsoddiad lleol ac yn gallu cael ei weithredu ledled y Gogledd.
- Dechrau adeiladu ar y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter. Mae hwn yn brosiect, dan arweiniad Prifysgol Wrecsam, i ddarparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i archwilio opteg, ffotoneg a deunyddiau cyfansawdd fel dewis amgen o ddeunydd ysgafn, a fydd yn lleihau carbon o fewn y sector gweithgynhyrchu.
- Dechrau adeiladu ar y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol, prosiect dan arweiniad Prifysgol Bangor i ddatblygu cyfleuster ymchwil gwell i archwilio'r defnydd o brosesau biolegol, megis ensymau unigryw, fel dewisiadau amgen carbon isel i gynhyrchion a phrosesau gweithgynhyrchu diwydiannol.
- Dechrau adeiladu ar "adain" gyntaf y Rhwydwaith Talent Twristiaeth, dyma ran gyntaf prosiect cydweithredol sy'n cael ei ddarparu gan Grŵp Llandrillo Menai a busnesau twristiaeth rhanbarthol blaenllaw sy'n ceisio trawsnewid y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth trwy ddiogelu darpariaeth sgiliau'r sector at y dyfodol.
- Buddsoddi yn ail gam y datblygiad gyda'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ym Mhrifysgol Bangor. Hwn oedd y cyntaf o brosiectau'r Cynllun Twf i sicrhau buddsoddiad o'r Cynllun Twf ac edrychwn ymlaen at wella cyfleusterau'r ganolfan ymhellach yn y flwyddyn i ddod.
- Cyrraedd penderfyniad buddsoddi ar gyfer ein prosiect seilwaith digidol Ychydig % Olaf sy'n mynd i'r afael â'r 'rhaniad digidol' fel y'i gelwir (y gwahaniaeth mewn ansawdd cysylltedd rhwng trefi a chymunedau gwledig) ac ystyried sut rydym yn darparu'r seilwaith cywir i ganiatáu i bawb yn y Gogledd fwynhau cysylltedd cyflym iawn fforddiadwy (o leiaf 30 megabit yr eiliad).
- Cwblhau ein prosiect Cronfa Band Eang Lleol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Nod y prosiect yw darparu cysylltedd gigabit i 18 o safleoedd sector cyhoeddus gan gynnwys llyfrgelloedd, cynghorau cymuned a swyddfeydd.

Mae gyrru tuag at ddyfodol sero-net yn egwyddor sylfaenol ar gyfer y Cynllun Twf. Rydym yn ymgorffori ein dull o ddatblygu cynaliadwy drwy leihau carbon a bioamrywiaeth a sicrhau ein bod yn cyflawni yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth i ni symud ymlaen.

Ar lefel bersonol, rwy'n hynod falch o 'Dîm Gogledd Cymru', sy'n ymestyn ar draws ein partneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru a thu hwnt, ac edrychaf ymlaen yn hyderus at y flwyddyn sydd i ddod.

# EIN PARTNERIAID

# £240M O GYLLID CYNLLUN TWF GAN